# Polisi Twyll

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r polisi:** | ***Ymateb ac ymchwilio i honiadau i dwyll (mewn perthynas â galwadau am wasanaeth a lledaeniadau'r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll ar gyfer gorfodi).*** |
| **Rhif y polisi:** | ***005/2020*** |
| **Rheoli fersiynau:** | ***Fersiwn: 2.0***<br>***Dyddiad:*** *14/09/2022*<br>***Awdur:*** [redacted]<br>***Rhesymeg:*** *Adolygu cynnwys – dim newid. Templed wedi'i ddiweddaru.*<br>***Mae rheolydd fersiwn llawn ar ddiwedd y ddogfen.*** |
| **Dyddiad gweithredu:** | ***05/02/2020*** |
| **Dyddiad adolygu:** | ***13/09/2024*** |
| **Perchennog/cyswllt:** | ***Tîm Troseddau Economaidd*** |
| **Cymeradwyaeth** | ***Y Ditectif Prif Arolygydd*** [redacted]<br>***14/09/2022*** |
| **Cymeradwyaeth derfynol** | ***Y Ditectif Prif Arolygydd*** [redacted]<br>***14/09/2022*** |
| **Ymgynghori a Chymeradwyo:** | ***UDRh CID***<br>***Ditectif Brif Uwcharolygydd, Pennaeth CID*** |
| **Fersiwn Saesneg** | ***Oes*** |

# 1. Datganiad Polisi

Dywed Argymhelliad 9 o adroddiad archwiliad Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHEM), sef ‘Twyll: Amser i Ddewis’, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, y “dylai Prif Gwnstabliaid gyhoeddi polisi eu Heddlu ar gyfer ymateb ac ymchwilio i honiadau o dwyll (mewn perthynas â galwadau am wasanaeth a lledaeniadau’r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll ar gyfer gorfodi)” erbyn 30 Medi 2019.

Mae’r polisi hwn, o’i ddarllen ochr yn ochr â Strategaeth Dwyll yr Heddlu [fersiwn 1 dyddiedig 20.9.2019] yn mynd i’r afael ag argymhelliad AHEM.

**Mae’r polisi’n berthnasol i’r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny**: Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu’n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy’n cael gafael ar asedau ac eiddo’r Heddlu a’u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.

# 2. Cwmpas y Polisi

Mae’r polisi hwn yn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn cydymffurfio o ran rheoli ac ymchwilio i ‘alwadau am wasanaeth’ mewn perthynas â thwyll a lledaeniadau’r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll ar gyfer gorfodi, yn unol â Strategaeth Plismona Twyll Genedlaethol 2019-2022 a safonau cofnodi troseddau cenedlaethol y Swyddfa Gartref.

Honiadau o dwyll yr adroddir amdanynt wrth Ganolfan Gyfathrebu’r Heddlu gan y dioddefydd, neu drwy alw heibio i Orsaf Heddlu, yw ‘galwadau am wasanaeth’. Nodir y canllawiau a’r prosesau ar gyfer rheoli galwadau am wasanaeth yn Strategaeth Dwyll yr Heddlu.

Mae’r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll yn cyflwyno adroddiadau am dwyll i HDP ar gyfer gorfodi ar ôl asesu mai HDP fyddai’r heddlu mwyaf priodol i ymgymryd ag ymchwiliad. Nodir y canllawiau a’r prosesau ar gyfer rhannu yn Strategaeth Dwyll yr Heddlu.

Gallai peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn olygu bod HDP yn methu â chydymffurfio â Strategaeth Plismona Twyll Genedlaethol 2019-2022, safonau cofnodi troseddau cenedlaethol y Swyddfa Gartref, neu'r codau ymarfer ar gyfer dioddefwyr.

Mae'r polisi hwn yn effeithio ar y Tîm Troseddau Economaidd, yr Adran Ymchwilio i Droseddau, Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, y Tîm Pennu Troseddau a Digwyddiadau, Timoedd Plismona Bro ac Ymateb yr Heddlu, a'r Swyddfa Cofnodi Troseddau. Dylai pob aelod staff o fewn y meysydd busnes hynny fod yn ymwybodol o'r polisi.

# 3. Pwerau a Gofynion Polisi/Cyfreithiol

Mae'r polisi hwn yn addas ar gyfer y diben o ran y ffaith ei fod yn bodloni gofynion llywodraethu yn fewnol ac yn allanol, ac yn cydymffurfio â Strategaeth Plismona Twyll Genedlaethol 2019-2022 Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ac Argymhelliad 9 o adroddiad archwiliad AHEM o'r enw 'Twyll: Amser i Ddewis'.

Mae deddfwriaeth mewn perthynas â safonau cofnodi troseddau cenedlaethol y Swyddfa Gartref a'r Codau Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr yn berthnasol i rai agweddau o'r polisi hwn.

# 4. Opsiynau a Dewisiadau wrth Gefn

**Perchennog y Polisi:** Bydd y polisi'n eiddo i'r Tîm Troseddau Economaidd, a fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi'n rheolaidd ar gyfer:

- Ei effeithiolrwydd;
- Unrhyw newidiadau i reolau'r Swyddfa Gartref a chanllawiau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu neu'r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll;
- Heriau i'r Polisi; ac
- Unrhyw eitemau aneffeithlon a nodwyd mewn perthynas â gweithredu.

**Y Broses Gymeradwyo:** Bydd Pennaeth yr Adran Ymchwilio i Droseddau a Bwrdd Gweithrediadau'r Heddlu'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â gweithredu'r polisi.

**Strategaeth Dwyll yr Heddlu:** mae’r strategaeth yn adnabod y gweithdrefnau a’r prosesau ar gyfer ymateb i Alwadau am Wasanaeth a lledaeniadau’r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll ar gyfer gorfodi.

Hefyd, mae’r darparu canllawiau mewn perthynas â’r canlynol:
- yr Egwyddorion Asesu Twyll
- gwneud cyfeiriad i’r Grŵp Cudd-wybodaeth Rhanbarthol
- ymchwiliadau Asiantaethau Partner
- y broses ‘drawsdrosedd’
- pennu ymchwiliadau twyll i’r rhanbarthau
- pennu ymchwiliadau twyll i’r Tîm Troseddau Economaidd ac ymchwilwyr seiber
- gweithredu’r Model Ymchwilio i Dwyll
- rheoli dioddefwyr twyll
- deall bygythiadau sy’n dod i’r amlwg

Mae’r prosesau a nodir yn Strategaeth Dwyll yr Heddlu’n berthnasol ar gyfer pob swyddog heddlu a phob aelod o staff yr heddlu sy’n gysylltiedig ag unrhyw agwedd o gofnodi, pennu ac ymchwilio i dwyll yn HDP. Ceisir cyfeiriadau i oruchwylwyr a rheolwyr am gyngor ac arweiniad pan ystyrir fod hyn yn briodol. Fodd bynnag, bydd y broses yn cael ei monitro’n gadarn ac effeithiol gan oruchwylwyr a rheolwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus [gweler 5. Gweithredu ac adolygu].

Mae’r egwyddorion canlynol o’r Cod Moeseg yn berthnasol ar gyfer y polisi hwn:

**Atebolrwydd** - Byddwn yn atebol am y penderfyniadau, gweithredoedd ac esgeulustra a wneir mewn perthynas â gweithredu’r prosesau a’r gweithdrefnau o fewn y Strategaeth Dwyll.

**Gonestrwydd** – Byddwn yn gweithredu’r prosesau a’r gweithdrefnau o fewn y Strategaeth Dwyll yn onest er mwyn cynnal ffydd y gymuned rydyn ni’n gwasanaethu.

**Unplygrwydd** – Byddwn bob amser yn anelu i wneud y peth iawn.

**Gwrthrychedd** – Bydd gweithredu’r prosesau a’r gweithdrefnau yn y Strategaeth Dwyll a’r penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar dystiolaeth a barn broffesiynol orau.

**Agoredrwydd** - Byddwn yn agored ac yn dryloyw yn ein gweithredoedd a’n penderfyniadau.

**Parch** – Byddwn yn trin pawb â pharch.

**Anhunanoldeb** – Byddwn yn gweithredu'n anhunanol ac er lles y cyhoedd.

# 5. Gweithredu ac Adolygu

Mae pob galwad ar gyfer gwasanaeth yn cael ei chofnodi ar STORM, sef system gorchymyn a rheoli'r Heddlu, a gweithredir y broses asesu a nodir yn Strategaeth Dwyll yr Heddlu.

Pan maen nhw'n cael eu cofnodi fel trosedd gan HDP, mae galwadau am wasanaeth yn mynd trwy oruchwyliaeth gadarnhaol barhaus.

Mae galwadau am wasanaeth sy'n ymwneud â thwyll yn cael eu 'tagio' ar STORM gan Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu, Tîm Pennu Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu, neu staff Rhanbarthol ar gyfer sylw'r Tîm Troseddau Economaidd, sydd â chyfrifoldeb i fonitro tagiau twyll a chynghori a chynorthwyo'r swyddogion ymchwilio.

Yn ogystal, anfonir hysbysiad awtomataidd i fewnflwch e-bost y Tîm Troseddau Economaidd pan mae trosedd sy'n ymwneud â thwyll yn cael ei chofnodi. Mae ymchwilwyr twyll yn gyfrifol am adolygu'r troseddau hyn er mwyn asesu natur y gŵyn a rhoi arweiniad a chyngor ymchwiliol i swyddogion.

Mae'r holl ledaeniadau ar gyfer gorfodi'n cael eu hanfon gan y Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll i Dîm Troseddau Economaidd HDP, gan ddefnyddio'r system gromgell. Yna, mae'r cyfeiriadau hyn yn cael eu hasesu gan ddefnyddio Matrics Twyll cyn cael eu pennu ar gyfer ymchwiliad. Mae'r holl ledaeniadau a dderbynnir yn cael eu cofnodi a'u monitro ar daenlen Excel (sy'n cael ei chynnal gan y Tîm Troseddau Economaidd), STORM a'r System Rheoli Troseddau.

Cyfrifoldeb y Swyddog sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r achos yw rhoi gwybod i'r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll am gyfeirnod trosedd yr Heddlu.

Mae'r CTH yn darparu rhestr bob mis i'r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll o'r troseddau twyll sydd wedi derbyn canlyniad yn ystod y mis blaenorol.

Mae'r broses sy'n manylu ar reoli lledaeniadau'r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth am Dwyll a dderbynnir gan HDP wedi'i nodi yn Strategaeth Dwyll yr Heddlu, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn addas ar gyfer y diben ac wedi'i gwreiddio o fewn yr heddlu.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r prosesau o fewn y Strategaeth Dwyll, rhoddir hyfforddiant i Swyddogion Heddlu a Staff Heddlu sy'n gweithio o fewn yr adrannau sydd wedi'u heffeithio gan y polisi hwn, ac maen nhw'n cael eu hatgoffa'n rheolaidd.

Cyfeirir unrhyw fethiannau sylweddol o fewn y gweithdrefnau yn Strategaeth Dwyll yr Heddlu i bwyllgor 'Gwersi a Ddysgwyd' yr Heddlu er ystyriaeth.

Mae cwynion gan aelodau o'r cyhoedd i'r Adran Safonau Proffesiynol mewn perthynas â rheoli galwadau am wasanaeth sy'n ymwneud â thwyll a lledaeniadau ar gyfer gorfodi'n cael eu hasesu yn erbyn Strategaeth a Pholisi Twyll yr Heddlu.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w gwarchod o dan y Ddeddf fel a ganlyn: Oedran; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried, wrth arfer eu swyddogaethau, yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil: dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu sy'n berthnasol i'r nodwedd hon.

Mae cynnal **asesiad o effaith ar gydraddoldeb** yn cynnwys asesu'n systematig effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau ar bobl mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw bolisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

Heddlu Police DYFED-POWYS

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB WEDI'I GWBLHAU

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Tîm Troseddau Economaidd |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 13/09/2022 |

## TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 14 September 2022 |

## COD MOESEG - TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Coed Moeseg ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Cod hwnnw a'r egwyddorion sy'n sail iddo.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Tîm Troseddau Economaidd |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 13/09/2022 |

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae adran 19 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod gofyniad ar yr Heddlu i gyhoeddi pob polisi ar wefan yr Heddlu. Polisïau yw pam rydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau yw sut rydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn amddiffyn prosesau gorfodi'r gyfraith ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Pan fydd dogfen bolisi a gweithdrefn gyfun yn cael ei chynhyrchu mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Heddlu gyhoeddi'r adran bolisi ac asesu'r rhan sy'n cynnwys y weithdrefn er mwyn sicrhau na chyhoeddir unrhyw wybodaeth sensitif. Yn gyffredinol, y sefyllfa ddiofyn fydd bod polisi a'i ddogfen weithdrefn ategol yn cael eu cynhyrchu ar wahân.

Mae'n ofynnol felly adolygu'r ddogfen hon i cadarnhau ei haddasrwydd i'w chyhoeddi. Nodwch isod a yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y bydd datgelu yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddiad hwnnw'n ei achosi gan amlygu'r adrannau perthnasol yn y ddogfen. Lle credir y byddai datgelu'n achosi niwed, dylid anfon y ddogfen at yr Uned Ddatgelu i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Yes | 14/09/2022 | [redacted] |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol, rwyf wedi nodi'r adrannau nad wyf yn credu eu bod yn addas i'w datgelu ac rwyf wedi nodi isod y niwed a fyddai'n cael ei achosi wrth gyhoeddi. | | | |

**Amlinelliad o unrhyw niwed a nodwyd yn y cyhoeddiad:**

## Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth - i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu

(Dim ond yn ofynnol os yw'r awdur yn credu y byddai datgelu'n achosi niwed)

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w datgelu yn rhannol a gwnaed y golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn ar gyfer y cyhoedd. | | | |

Ar ôl cynnal adolygiad, dylai'r Swyddog Datgelu Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen at awdur y polisi ac ar ôl ei chymeradwyo, dylid cyhoeddi'r ddogfen o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylid dwyn unrhyw newidiadau i'r ddogfen yn y dyfodol i sylw'r Uned Ddatgelu, fel sy'n briodol.

## Rheoli Fersiynau Llawn

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rhesymeg |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 30/09/2019 | [redacted] | Polisi Twyll Newydd |
| 2.0 | 14/09/2022 | [redacted] | Adolygu cynnwys – dim newid. Templed wedi'i ddiweddaru. |
| | | | |